

Cardiff University Students' Union

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Gwobrau ar gyfer Staff

Tiwtor Personol y Flwyddyn Mae'r

Wobr hon yn cydnabod Tiwtor Personol sydd wedi rhagori yn eu rôl. Efallai maent wedi mynd uwchlaw'r disgwyl i gefnogi myfyriwr, neu wedi bod yn arbennig o ragweithiol drwy gydol bywyd Prifysgol myfyriwr. Maent wedi rhagori'r disgwyliadau gofynnol a nodir gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r ymgeiswyr blaenorol a gyrhaeddwyd y rhestr fer wedi cefnogi myfyrwyr drwy amgylchiadau heriol, cydbwysu ymrwymïadau teuluol ag astudiaeth, a goresgyn problemau iechyd difrifol. Dylai Tiwtor Personol y flwyddyn fod yn fodel rôl, yn rhoi grym i fyfyrwyr oresgyn heriau a gwneud y mwyaf o'u profiad Prifysgol.

Yr Athro Mwyaf Effeithiol Mae'r

Wobr hon yn cydnabod unigolyn sydd yn gallu gwneud y cynnwys mwyaf annealladwy ymddangos yn syml. Maent yn gallu cyfleu pynciau heriol mewn modd atyniadol sy'n gwneud y gorau o'u darlithoedd a'u seminarau. Mae ymgeiswyr blaenorol a gyrhaeddwyd y rhestr fer wedi'u dewis am eu brwdfrydedd tuag at ddysgu, yn dwyn y gorau o'u myfyrwyr a chyflawni eu potensial. Mae'r enwebai hwn yn gosod y bar ar gyfer dysgu a dylent gael eu gweld fel model rôl i'w cydweithwyr. At ddibenion y wobr hon, mae athro yn cyfeirio at unrhyw un sy'n cynnal darlithoedd, seminarau ac yn ymddangos i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Aelod o Staff Mwyaf Arloesol

Mae'r wobr hon yn cydnabod aelod o staff y Brifysgol sydd wedi defnyddio dulliau anghonfensiynol, arloesol neu ddyfeisgar i wella profiad y myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd. Nid oes yn rhaid i'r categori eang hwn ymwneud yn uniongyrchol â sefydliadau academiaidd. Rydym yn chwilio am aelodau staff sydd wedi dod â chwa o awyr iach i'w maes, sydd wedi defnyddio eu creadigrwydd i wella amser eu myfyrwyr yn y Brifysgol. Mae arloesedd yr unigolyn yn eu gosod ar wahân yn eu proffesiwn.

Mae'r unigolyn a enwebwyd, er enghraifft, efallai wedi defnyddio offer o'r radd flaenaf i gyflwyno eu modiwlau, neu efallai wedi cyflwyno systemau a gweithdrefnau newydd i arbed adnodd, neu wedi defnyddio ffyrdd clyfar o ymgysylltu gyda chorff y myfyrwyr i gael adborth. Mae ymgeiswyr a gyrhaeddwyd y rhestr fer yn flaenorol wedi defnyddio dulliau doniol fel Carreg, Papur a Spock i ddisgrifio Theori Gêm neu wedi croesawu dulliau addysgu gwahanol i wella'r profiad dysgu.

Aelod o Staff Mwyaf Ysbrydoledig Mae'r



Wobr hon yn cydnabod aelod o staff sydd ag agwedd cadarnhaol sy'n codi ysbryd pawb y maent yn rhyngweithio â. Mae'r wobwr hon yn berthnasol i unrhyw aelodau staff proffesiynol, academiaidd neu gymorth sy'n gweithio i neu sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Caerdydd. Mae ymgeiswyr ar restr fer y gorffennol wedi amrywio o staff llety'r Brifysgol, y Gaplaniaeth, gyrrwyr bws neuaddau'r Brifysgol ac amrywiaeth o staff cymorth proffesiynol.

Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr y Flwyddyn

Mae'r wobwr hon yn cydnabod gwaith aelod sy'n helpu cefnogi Cynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr o fewn eu Hysgol. Nhw yw'r prif gyswllt ar gyfer Cynrychiolwyr, yn eu helpu i drefnu Paneli Staff Myfyrwyr, yn eu harwain i siarad ag aelodau staff priodol a chadw cofnod o'r nifer o Gynrychiolwyr yn eu hysgol. Heb eu cymorth, cefnogaeth a gwybodaeth, ni fyddai'r system Cynrychiolwyr yn gweithredu ar y raddfa fawr y mae'n gwneud ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Caerdydd.

At ddibenion y wobwr hon, mae Cydlynnydd Cynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr yn cyfeirio ar aelod o staff sydd yn brif gyswllt ar gyfer Llais y Myfyrwyr o fewn eu hysgol. Rydym yn derbyn enwebiadau ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldeb dynodedig am Lais y Myfyrwyr yn ysgrifenedig i'w model llwyth gwaith neu gytundeb mwy anffurfiol gyda'u hysgol.

Goruchwyliwr Doethurol Eithriadol

Mae'r wobwr hon yn cydnabod unigolyn sydd wedi helpu i lywio a mentora myfyrwyr drwy eu gwaith ymchwil doethurol. Cyflwynwyd Goruchwyliwr Doethurol Eithriadol yn 2016 er mwyn cydnabod y gwaith anhygoel y mae Goruchwyliwr yn ei wneud i wella'r profiad Ymchwil Ol-raddedig. Bydd goruchwyliwr da yn sicrhau bod myfyriwr wedi gorffen eu PhD o fewn disgwyliad y Brifysgol o 4 blynedd. Bydd goruchwyliwr rhagorol yn dwyn y gorau allan o'u myfyrwyr. Bydd eu hymrwymiad, eu gwybodaeth a'u hegni wedi ysbrydoli'r rheini maent yn eu cefnogi. Nodwyd ymgeiswyr blaenorol ar y rhestr fer am gefnogi myfyrwyr gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol, am fod yn fodelau rôl da a chefnogi myfyrwyr sydd wedi ymdopi ag ymrwymïadau teulu ochr yn ochr â'u PhD.

At ddibenion y wobwr hon mae Goruchwyliwr Doethurol yn cyfeirio at aelod o staff sydd yn goruchwyllo myfyriwr drwy eu PhD. Nid oes yn rhaid bod yr enwebwr wedi cwblhau eu PhD, ond mae'n rhaid iddynt ddangos sut mae eu goruchwyliwr yn sefyll allan ymhlith eu cyd weithwyr.

Pencampwr Addysg Gymraeg Mae'r

Wobr hon yn cydnabod unigolyn sydd wedi gwella neu wedi hybu'r iaith Gymraeg drwy eu haddysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Gall gynnwys gwneud addasiadau i'r awyrgylch dysgu, cynhyrchu deunydd dwyieithog neu fewnosod y Gymraeg i'r cwricwlwm. Nid oes yn rhaid i'r ymgeiswyr fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn hytrach mae'r wobwr hwn yn ceisio cydnabod beth mae'r unigolyn wedi'i wneud i hyrwyddo'r Gymraeg.



At ddibenion y wobr hon gellir enwebu unrhyw aelod o staff. Mae'r meini prawf yn canolbwyntio ar sut mae'r unigolyn hwn wedi gwella neu hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r profiad addysgol.

Gwobrau ar gyfer Myfyrwyr

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr y Flwyddyn (Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol)

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr y Flwyddyn (Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd)

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr y Flwyddyn (Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Bywyd)

Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr sydd wedi dangos ymrwymiad eithriadol i'w sefyllfa ac yn fodel rôl i'w cyfoedion. Oherwydd y cyd-destun unigryw ym mhob un o'r colegau a'r heriau y mae'r Cynrychiolwyr yn wynebu, mae Cynrychiolydd y Flwyddyn ar gyfer bob Coleg. Mae ymgeiswyr y rhestr fer flaenorol wedi trefnu digwyddiad Merched mewn Arweinyddiaeth yn eu Hysgol, fe wnaeth Cynrychiolydd arall helpu ailgyflwyno modiwl a oedd wedi'i ganslo ac ymgeisydd arall wedi ymgyrchu am fwy o arian PhD i fynychu cynadleddau.

At ddiben y wobr hon mae Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr yn cyfeirio at fyfyrwr gwirfoddol sy'n lleisio barn, pryderon a chwestiynau eu cyfoedion i'w hysgol academaidd. Mae'n rhaid bod y myfyrwyr a enwebwyd ar gyfer y rôl hon wedi bod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr yn y flwyddyn academaidd 2016/17.

Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr y Flwyddyn (Cyffredinol)

Dewisir y wobr hon gan enillwyr bob Cynrychiolydd Coleg y Flwyddyn. Gwelir y Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr sy'n ennill y wobr hon fel enghraifft wych i holl Gynrychiolwyr eraill i gynnal eu rôl.

